



Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

**POLISI COED AR GYFER
COED A GOETIROEDD SY’N
EIDDO CYNGOR A REOLIR**





1. Cyflwyniad

1.1

Cynhyrchwyd y Polisi hwn i hysbysu'r cyhoedd, cynghorwyr, staff Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) a phartion eraill ar pryd, pam a sut y bydd CBSBG yn ymgymryd â gwaith a choetiroedd sydd ar ein tir.

1.2

Nod y Polisi hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth statudol berthnasol a pholisi lleol a chenedlaethol yn ymwneud â rheoli coed a choetiroedd o fewn ardal Blaenau Gwent. Mae hyn yn cynnwys rheoli coed i ostwng unrhyw beryglon cysylltiedig yn ogystal â rhoi ystyriaeth i fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol stoc iach o goed trefol.

1.3

Mae'r Polisi hwn yn llwyr ar gyfer rheoli tir a choetiroedd sydd ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno. Cyfrifoldeb y deiliad tir perthnasol yw rheoli coed ar dir y tu allan i berchnogaeth y Cyngor. Gall y Cyngor osod Gorchymyn Cadwraeth Goed ar goed sydd ar dir mewn perchnogaeth breifat, fodd bynnag trafodaeth fer iawn sydd ar Orchmynion Cadwraeth Goed yma gan fod canllawiau ar wahân ar gyfer y broses hon. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau rheoleiddiol yng nghyswllt coed yn gysylltiedig â safleoedd datblygu ac mae nodyn Canllaw Cynllunio Atodol (Coed a Datblygu) ar wahân sy'n trafod y mater hwn.

1.4

Bwriedir i'r Polisi hwn gael ei ddefnyddio fel canllaw ymarferol a hefyd fod yn fan cyfeirio diffiniol ar bob mater yn ymwneud â choed a choetiroedd ar dir y mae CBSBG yn berchen arno. Dylai pawb sydd â chyfrifoldebau rheoli tir o fewn y Cyngor ymgynghori ag ef.

1.5

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Seilwaith Gwyrdd yn cydlynu rheoli stoc coed y Cyngor ac mae'n gyfrifol am adolygu a diweddarau'r Polisi Corfforaethol Coed a Choetiroedd hwn. Dylai unrhyw ymholiadau yng nghyswllt y Polisi hwn gael eu cyfeirio at Reolwr y Tîm Seilwaith Gwyrdd. Mae rhestr o'r manylion cyswllt rheolaidd ar gael yng nghefn y ddogfen.

2. Datganiad Egwyddorion

2.1

I adlewyrchu polisi llywodraethol ehangach, mae CBSBG wedi datblygu'r tair egwyddor allweddol ddilynol yng nghyswllt coed a choetiroedd yr Awdurdod yn ardal CBSBG, sef:

- **Rheoli ein stoc coed**

Mae gan CBSBG raglen archwilio gynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl goed o fewn ein perchnogaeth. Caiff yr holl goed eu harchwilio ar sail gylchol gan Dyfwr Coed gyda chymwysterau. Rhoddir adroddiad am unrhyw goed sydd angen gwaith i Dîm Seilwaith Gwyrdd CBSBG sy'n paratoi contractau ar gyfer y gwaith. Y Tîm Seilwaith Gwyrdd sy'n cydlynu'r rhan fwyaf o waith tyfu coed rhagweithiol ac ymatebol CBSBG i atal, lle bo angen, broblemau a achosir gan goed mewn ardaloedd trefol iawn, a hefyd i drin gorchudd coed a choetiroedd mewn ffordd gyfrifol i sicrhau y caiff y nodweddion gwerthfawr hyn eu cadw yn yr hirdymor.

- **Ailblannu lle cafodd stoc coed ei golli neu ei symud**

Bydd CBSBG yn arwain drwy esiampl mewn safleoedd o fewn ei reolaeth drwy ailblannu lle'n rhesymol ymarferol a bydd yn anelu i gefnogi plannu coed a choetiroedd ar safleoedd nad yw CBSBG yn berchen arnynt.

- **Diogelu a Chadwraeth**

Caiff yr holl goed y mae CBSBG yn berchen arnynt eu diogelu gan yr Awdurdod. Ni fyddwn yn caniatáu unrhyw waith i'n coed heb ganiatâd yr Awdurdod. Yn ychwanegol, caiff nifer sylweddol o goed a choetiroedd y cyngor a choed a choetiroedd phreifat o fewn Blaenau Gwent eu diogelu gan ddeddfwriaeth genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Cadwraeth Coed, mesurau rheoli cynllunio a dynodiad tir arbennig megis Ardaloedd Cadwraeth. Rhoddir mwy o fanylion am ddiogelu coed yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar wahân, Coed a Datblygu: Canllaw ar gynnwys Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd mewn Cynigion Datblygu (2015) a chanllawiau ar wahân ar Orchmynion Cadwraeth Coed, sydd ar gael ar ein gwefan.



3. Pam fod yn rhaid i ni reoli ein stoc coed - deall yr atebolrwydd

3.1

Dan gyfraith sifil a hefyd cyfraith droseddol, mae gan berchennog tir y mae coeden yn sefyll arno gyfrifoldeb yng nghyswllt iechyd a diogelwch pobl ar y tir hwnnw neu dir cyfagos, ac mae ganddynt hefyd atebolrwydd posibl yng nghyswllt coed neu ganghennau'n cwmpo.

3.2

Mae cyfraith sifil yn rhoi dyletswyddau ac atebolrwydd posibl i dalu iawndal pe byddai dyletswyddau o'r fath yn cael eu torri. Y ddyletswydd gofal yw cymryd gofal rhesymol i osgoi gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd sy'n achosi risg rhesymol y medrir ei ragweld o anaf i bobl neu eiddo.

3.3

Mae'r llysoedd yn ystyried mai cyfrifoldeb sylfaenol y deiliad dyletswydd, wrth gymryd gofal rhesymol fel "tirfeddiannwr rhesymol a darbodus", yw ystyried y risgiau a achosir gan eu coed. Fodd bynnag, mae cydbwysedd risgiau a achosir gan goed yn gyffredinol, eu hamwynderau neu werthoedd eraill a chost gwahanol fathau o archwilio a mesurau unioni i gyd yn berthnasol yng nghyswllt sicrhau y cymerir gofal rhesymol.

3.4

Er nad yw'r llysoedd wedi diffinio safon yr arolygu sydd ei angen, mae lefel yr wybodaeth a safon yr archwilio sy'n rhaid ei weithredu wrth asesu coed yn neilltuol o bwysig. Yn ychwanegol mae'r Weithrediaeth Diogelwch ac Iechyd wedi nodi fod "system o wiriadau cyfnodol a rhagweithiol yn briodol mar gyfer coed mewn parth yr ymwelir ag ef yn aml".

3.5

Mae cyfraith droseddol yn achosi risg erlyn pe byddai gweithredoedd perthnasol yn cael eu torri. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, na chaiff gweithwyr nac aelodau o'r cyhoedd eu rhoi mewn risg wrth gynnal eu gwaith.

3.6

Er bod y gweithredoedd o gwmpo neu docio coed yn amlwg yn ymwneud â'r Ddeddf hon mae'n debygol bod tyfu a rheoli coed ar dir hefyd yn dod o fewn cwrpas y ddyletswydd os yw gweithrediadau o'r fath yn dod o fewn gwaith y cyflogwr. Gall Rheoliad Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 hefyd fod yn berthnasol dan reoliad 3 yng nghyswllt cynnal asesiadau risg o stoc coed.

3.7

Er ei bod yn amlwg fod risgiau'n gysylltiedig â choed ac na fedrir gwarantu fod unrhyw goeden yn ddiogel, mae'n bwysig sylweddoli y derbynir yn gyffredinol fod risg o'r fath yn isel. Fodd bynnag, mae pryder ac ansicrwydd sylweddol am drin coed ar gyfer diogelwch wedi codi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cafodd hyn ei ysgogi i raddau helaeth gan nifer o achosion llys ac ymatebion eraill i ddigwyddiadau prin lle mae coed neu ganghennau'n cwmpo wedi lladd neu anafu pobl. Mae felly'n bwysig i berchnogion tir fel CBSBG fod â strategaeth rheoli risg rhesymol a chytbwys yn ei le.

3.8

Mae ymarfer y meddir ei amddiffyn sy'n gyson gyda dyletswydd gofal, yn seiliedig ar ofal rhesymol, tebygolrwydd rhesymol ac ymarferoldeb rhesymol yn rhoi dull cost-effeithlon ar gyfer rheoli stoc coed. Er y gellir cwestiynu cost o'r fath dylid gwerthfawrogi ei fod mewn gwirionedd yn fuddsoddiad cadarn, nid yn unig yng nghyswllt sicrhau diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol tra'n cynnal y buddion niferus y mae coed yn eu rhoi, ond hefyd yng nghyswllt rhoi dull ar gyfer i'r awdurdod amddiffyn ei hun yn gadarn pe byddai damwain.

3.9

Mae systemau rheoli o'r fath yn gostus ac felly mae'n rhaid i waith i goed gael ei wneud yn nhrefn blaenoriaeth. Y flaenoriaeth uchaf yw gwaith i goed sy'n achosi'r risg uchaf i ddiogelwch pobl ac eiddo. Dyna pam weithiau y gall fod yn rhaid oedi gwaith risg is a byddwn yn ymdrechu i hysbysu pobl am oedi o'r fath. Yn ychwanegol byddwn yn ceisio cysylltu â chymdogion a rhai sydd â diddordeb parthed gwaith a symud coed, pan wneir hyn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser.

3.10

Weithiau gall fod yn rhaid i'r Cyngor symud coeden beryglus ar dir preifat, o eiddo cyfagos lle gall hyn fod yn effeithio ar y briffordd neu ardal gyhoeddus arall er enghraifft a lle na allwn hysbysu'r tîrfeddiannwr mewn modd amserol. Gallwn wneud hyn yn gyfreithiol dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.





4. Sut yr ydym yn rheoli ein coed a'n coedwigoedd - ein rhaglen arolygu coed a pha waith a wnawn

4.1

Mae CBSBG yn gyfrifol am reoli ei stoc coed i sicrhau iechyd y coed ac i leihau'r risg i iechyd a diogelwch y cyhoedd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i berchnogion, meddianwyr a defnyddwyr tir cyfagos a hefyd i ddefnyddwyr ei dir ein hun. Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd gofal yma drwy wneud gwaith rheoli rhagweithiol a hefyd waith argyfwng ymatebol.

4.2

Mae rheoli rhagweithiol yn cynnwys asesiad cylchol o iechyd ac integriti strwythurol y coed gyda gwaith priodol yn cael ei wneud lle dynodir anghenion, mae'r gwaith yn cydymffurfio â BS 3998:2010 - Argymhellion Gwaith Coed ac arfer da arall a chyfredol y diwydiant. Y nod yw dynodi unrhyw beryglon a gwneud gwaith unioni coed lle mae angen.

4.3

Rhoddir ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol bywyd gwyllt, yn bennaf yng nghyswllt adar sy'n nythu a'r potensial ar gyfer presenoldeb ystumod. Cydymffurfir hefyd â deddfwriaeth yn ymwneud â rheoli coed o fewn ardaloedd sydd â dynodiadau diogelu, er enghraifft Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) gan geisio caniatâd gan yr awdurdodau perthnasol lle mae angen hyn.

4.4

Mae gennym raglen flynyddol o arolygu coed ym Mlaenau Gwent a gaiff ei rheoli gan y Tîm Seilwaith Gwyrdd. Cynhelir yr arolwg gan Dyfwr Coed gyda chymwysterau ac mae'n anelu i archwilio ein holl goed ar sail gylchol. Cafodd pob ardal ei hasesu i weld os yw angen arolwg ar sail flynyddol, bob dwy flynedd neu bob tair i bum mlynedd. Er enghraifft, caiff ysgolion a phrifyrdd eu harchwilio bob blwyddyn oherwydd y risgiau uchel y gall coed yn y lleoliadau hyn ei achosi tra efallai mai dim ond bob tair i bum mlynedd y caiff coed yn ardaloedd mwy anghysbell ein parciau neu warchodfeydd natur lleol eu harolygu.

4.5

Cynhelir yr arolwg coed gan Dyfwr Coed gyda chymwysterau sy'n archwilio pob un o'n coed ac yn rhoi adroddiad am unrhyw ddiffyg neu ofynion gwaith ar ein system ddigidol rheoli coed (Arbortrack). Rhoddir blaenoriaeth i bob gofyniad gwaith a ychwanegir at y system sy'n seiliedig ar y perygl a ddynodwyd. Gwneir gwaith brys o fewn 24 awr (mae enghreifftiau o waith brys yn brin ac fel arfer cânt eu trin yn y fan a'r lle); gwneir gwaith Blaenoriaeth 1 o fewn 6 mis (dyma'r amserlen mwy arferol) a gwneir gwaith Blaenoriaeth 2 o fewn 12 mis o'r arolwg. Mae'r Tîm Seilwaith Gwyrdd yn cyhoeddi atodlen gwaith ar ddiwedd yr arolwg blynyddol i gontractwyr coed allanol gan ddyrannu gwaith ar sail blaenoriaeth.

4.6

Mae'r system hon yn sicrhau ein bod yn rheoli ein coed ar sail ragweithiol ac yn unol â'n dyletswydd gofal. Mae hefyd yn sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu i waith yn seiliedig ar set glir o flaenoriaethau ac yn galluogi llwybr archwilio clir o waith a wnaethom.



4.7

Mae'r system yn dibynnu ar i'n Tîm Seilwaith Gwyrdd fod yn ymwybodol pa dir yr ydym yn berchen arno a lle mae ein coed a'n coetiroedd. Mae felly'n bwysig fod pob adran o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldebau perchnogaeth tir yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfredol ac yn ei rhannu gydag aelodau o'r Tîm Seilwaith Gwyrdd.

4.8

Caiff gwaith ymatebol rheoli coed ei wneud mewn ymateb i sefyllfa argyfwng megis difrod i goed cyngor yn dilyn storm neu archwilio coeden y rhoddwyd adroddiad ei bod yn beryglus - dylid nodi yr anelir yr arolwg coed rhagweithol at ostwng yn sylweddol yr achosion o goed peryglus sy'n digwydd o fewn y Fwrdeisdref a'r angen am waith brys.



5. Sut yr ydym yn rheoli ein coed - ceisiadau gan y cyhoedd na chaiff eu gwneud

5.1

Mae'r Cyngor yn derbyn llawer o geisiadau gan y cyhoedd i wneud gwaith i goed yr ystyriwn nad yw'n hanfodol, hynny yw rheoli and yw'n uniongyrchol gysylltiedig â diogelwch ein stoc coed ac a fydd yn arwain at golli'r adnodd trefol gwerthfawr hwn.

5.2

Ni wneir gwaith nad ystyriwn ei fod yn hanfodol; mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth sy'n hyrwyddo cadw coed a gorchudd brigdwf o fewn ein tirlun trefol am resymau iechyd, cymdeithasol a bioamrywiaeth. Mae hyn hefyd yn sicrhau y caiff cyllid y Cyngor ei gyfeirio at waith blaenoriaeth yn gysylltiedig gyda'n rhaglen ragweithiol o arolygon coed. Caiff natur y ceisiadau amlaf, heb fod yn hanfodol na fyddwn yn ei gwneud eu hamlinellu islaw, sef:

5.3 - Rhesymau cosmetig neu ymddangosiad

Mae hyn yn ddiangen, costus a gall gael effaith niweidiol ar iechyd hirdymor ac integriti strwythurol coed. Mae gan unrhyw waith tocio y potensial i roi cyfle am fynediad pathogenau drwy anafiadau ac mae hefyd fel arfer yn hyrwyddo aildyfiant egnïol yn arwain at yr angen am reoli cylchol ar gost sylweddol a pharhaus yn y dyfodol.

5.4 - Colli golau/cysgod

Nid oes unrhyw hawl statudol neu gyfraith gyffredin i olau yn y Deyrnas Unedig felly ni fydd CBSBG yn gwneud gwaith coed i alluogi golau naturiol neu ostwng cysgodi yng nghyswllt anheddau. Fodd bynnag, lle caiff dwy neu fwy o goed bytholwyrdd neu led-fytholwyrdd eu plannu mewn llinell gyda'r potensial i gael eu hystyried fel gwrych, yna gall Rhan 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 fod yn berthnasol.

5.5 - Gosod Paneli Solar

Mae'r ffaith nad oes unrhyw hawl statudol neu gyfraith gyffredin i olau yn y Deyrnas Unedig hefyd yn effeithio ar ddefnydd paneli solar. Dylid hefyd roi ystyriaeth i bresenoldeb coed presennol a'r effaith y gallent ei gael, ar hyn o bryd a hefyd yn y dyfodol, wrth ystyried gosod paneli solar.

5.6 - Colli neu ymyrryd yng nghyswllt signal teledu neu loeren

Mae prynu trwydded deledu neu danysgrifiad i ddarparu gwasanaeth fel Sky yn rhoi'r hawl i'r pwrcasydd weithredu'r offer sy'n derbyn unrhyw signal sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oes unrhyw hawl cyfreithiol i signal teledu/lloeren yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd CBSBG yn gwneud gwaith i goed yng nghyswllt colli neu ymyrryd ar signal. Dylid gofyn am arweiniad gan y darparparydd gwasanaeth yng nghyswllt negyddu materion yn ymwneud â derbyniad.

5.7 - Colli golygfeydd

Gan nad oes unrhyw hawl i olygfa heb ei chuddio gan goed yn y Deyrnas Unedig, ni fydd CBSBG yn gwneud gwaith coed yn unig i wella golygfeydd i ac o anheddau neu safleoedd masnachol. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd lle gall golygfeydd fod wedi bodoli'n flaenorol. Mae CBSBG yn cadw'r hawl i symud ein coed ein hunain os credwn ac y gallwn roi tystiolaeth y bydd hyn er budd tirlun cyhoeddus ac amwynder gweledol.

5.8 - Diosg dail, ffrwythau ac ysgyrion

Rhaid disgwyl ysgyrion rhesymol megis dail, ffrwythau, cnau, blodau, gweddillion, mân bren marw ac isgynnyrch sy'n digwydd yn naturiol fel rhan o brosesau bywyd coed, lle mae coed ar gael. Felly ni fydd CBSBG yn gwneud gwaith i goed yng nghyswllt negyddu materion o'r fath. Mae baw adar a phryfed, yn bennaf wllth mêl yn gysylltiedig gydag affidau, tu hwnt i reolaeth CBSBG ac felly ni wneir unrhyw waith coed i atal y broblem bosibl hon.

5.9 - Canghennau yn ymestyn dros dir cyfagos

Nid oes gan CBSBG unrhyw ddyletswydd i docio canghennau sy'n ymestyn heblaw lle maent yn gwrthdaro'n uniongyrchol neu y gallent wrthdaro gyda strwythur adeiledig cyfagos. Mae gan berchennog neu feddianwyr tir cyfagos hawl cyfraith gyffredin i docio canghennau sy'n ymestyn i'r llinell derfyn. Fodd bynnag, dylid hefyd nodi fod gan berchnogion a meddianwyr tir cyfagos hefyd ddyletswydd gofal i berchnogion coed, ac felly dylent gymryd mesurau gofalu rhesymol pan fyddant yn gweithredu eu hawl cyfraith gyffredin er mwyn sicrhau na fyddir yn lleihau iechyd hirdymor ac integriti strwythurol y coed. Anogir unrhyw un sy'n dymuno gweithredu eu hawl cyfraith gyffredin yng nghyswllt tir y mae'r cyngor yn berchen arno i gydlynu gyda'r awdurdod lleol. Mae hyn fel y gallwn sicrhau nad yw gwaith yn peryglu iechyd y coed neu'n torri ar ddynodiadau diogelu. Dylai unrhyw waith rheoli coed gydymffurfio â'r dilynol:

- Y caiff yr holl waith ei wneud yn unol â BS 3998:2010 Gwaith Coed – Argymhellion
- Gwneir gwaith ar adeg nad yw'n gwrthdaro gyda deilio neu ddail yn cwmpo
- Gwneir yr holl waith yn unol â deddfwriaeth berthnasol bywyd gwyllt
- Bod unrhyw gontractwyr a gyflogir â chymwysterau ac yswiriant addas
- Y caiff unrhyw waith ei wneud mewn modd diogel a chyfeillgar i'r amgylchedd
- Na ddylai'r cyhoedd dresmasu ar dir CBSBG (nac unrhyw dir arall) heb ganiatâd y tîrfeddianwr.

5.10 - Risg tybiedig oherwydd coed 'tal' neu 'siglo' yn agos at eiddo

Cynlluniwyd i'r rhaglen ragweithiol o arolygon coed nodi coed peryglus sy'n agos at ardaloedd risg uchel megis eiddo neu briffyrdd. Dylid rhoi sicrwydd i'r cyhoedd y bydd yr arolwg blynyddol yn canfod os yw coeden yn beryglus a gwneir gwaith yn unol â hynny.



6. Coed yng nghyswllt priffyrdd

6.1

O fewn yr amgylchedd trefol, ac yn wir yr amgylchedd gwledig hefyd, mae potensial gwrthdaro rhwng presenoldeb coed a defnydd diogel y briffordd gyhoeddus. Mae Deddf Priffyrdd 1980 (a ddiwygiwyd yn 1986) yn berthnasol i goed y mae CBSBG yn berchen arnynt a hefyd y rhai mewn perchnogaeth breifat sydd â'r potensial i effeithio ar y briffordd fabwysiedig.

6.2 - Caiff Deddf Priffyrdd 1980

ei gweinyddu gan awdurdodau cymwys perthnasol megis yr awdurdodau priffyrdd lleol a Llywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd CBSBG yn gweinyddu'r ddeddf drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig mewn ffordd debyg i fesurau rheoli cynllunio a osodwyd gan Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad.

6.3

Mae gwahanol adrannau o'r Ddeddf Priffyrdd yn gosod dyletswyddau ar berchnogion a meddianwyr tir i sicrhau y caiff y briffordd, yn cynnwys llwybrau troed a seilwaith cysylltiedig, ei gynnal a chadw mewn modd diogel ac addas. Mae enghreifftiau o'r gwaith tyfiant a osodwyd gan y Ddeddf Priffyrdd yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, y dilynol:

- Tocio i roi rhwng 5.4m - 6.1m o gliriad fertigol uwchben priffordd
- Tocio i roi 2.4m o gliriad fertigol uwchben llwybr troed
- Tocio i alluogi llediad golau digonol o golofn neu osodiad lamp
- Tocio i symud tyfiant peryglus
- Tocio i alluogi llain welededd a ragnodwyd mewn cyffyrdd
- Tocio i alluogi cerddwyr i fynd heibio'n ddiogel

6.4 - Y Ddeddf Priffyrdd yng nghyswllt tir y mae CBSBG yn berchen arno

Bydd CBSBG yn ymdrechu i wneud yr holl waith sy'n ofynnol gan y Ddeddf o fewn 14 diwrnod o ddynodi'r gwaith. Mewn rhai achosion, efallai na fedrir cyflawni hyn oherwydd argaeledd staff neu ofynion mynediad.

6.5 - Y Ddeddf Priffyrdd yng nghyswllt tir nad yw CBSBG yn berchen arno

Mae Deddf Priffyrdd 1980 yn weithredol ar gyfer pob tiffeddianwr neu feddianwyr. Bydd CBSBG yn cyflwyno hysbysiad ym mhob lleoliad y mae'n teimlo sy'n briodol a chymesur gyda defnydd y briffordd neu lwybr troed dan sylw. Fel arfer caiff safleoedd lle mae angen hysbysadau eu hadrodd drwy'r ganolfan galw neu eu dynodi gan swyddogion CBSBG megis arolygwyr priffyrdd yn ystod eu dyletswyddau dyddiol.

6.6 - Gwaith Argyfwng Coed a Phriffyrdd

Bydd CBSBG yn gwneud gwaith argyfwng i ddiogelu unrhyw goeden neu goed sydd wedi methu'n rhannol neu'n gyfangwbl sy'n effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd. Gellir ailgodi cost hynny ar berchennog y tir.

7. Egwyddorion polisi ychwanegol

7.1 - Darparu ardal bridd y gellir ei defnyddio

Mae coed fel arfer angen ardal bridd y gellir ei ddefnyddio i ganiatáu ymdreiddiad dŵr a thrylediad nwyon, sydd y ddau'n hanfodol i ddatblygu a chynnal system wreiddio iach a hyfyw. Yn yr amgylchedd trefol mae darpariaeth ardal bridd o'r fath y gellir ei ddefnyddio yn aml yn cael ei beryglu ac mae hyn yn neilltuol o berthnasol yng nghyswllt coed ar briffyrdd lle mae wyneb caled yn amlach na pheidio.

7.2

Os yn bosibl o gwbl, dylid osgoi'r arfer presennol o osod tarmac hyd at brif gyff coeden. Mae strwythur canghennau coed yn cyfeirio dŵr, yn arbennig yn ystod glaw trwm, ar hyd y prif ganghennau a lawr y prif gyff, felly bydd darparu rhidyllau coed, defnyddio palmant treiddadwy a glymwyd gyda resin neu ardal fach heb darmac o amgylch gwaelod y goeden yn caniatáu i lawer o ddŵr fynd i mewn i'r pridd o fewn amgylchedd gwreiddiau'r goeden. Dylid bob amser osgoi defnyddio wyneb anhydraid, megis concrit, o amgylch gwaelod coed.

7.3 - Difrod tybiedig i strwythurau adeiledig

Lle ystyrir bod difrod i strwythurau adeiledig yn gysylltiedig â phresenoldeb tir y mae CBSBG yn berchen arno, yn y lle cyntaf dylai perchnogion eiddo gysylltu â'u cwmni yswiriant adeiladau. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ymchwilio pob hawliad am iawndal strwythurol ar ôl cyflwyno tystiolaeth addas. Gall canfyddiadau ymchwiliad yswiriant gael y Cyngor yn atebol ac arwain at argymhellion yn ymwneud â choeden y mae'r Cyngor yn berchen arni (tocio, gosod rhwystrau gwreiddiau ac yn y blaen). Byddai'n rheidrwydd ar y Cyngor i weithredu yn unol â hynny yn y sefyllfa hon.

7.4

Byddai angen ystyried pob hawliad unigol ar ei haeddiant ei hun ac yn dilyn canllawiau'r Protocol Lliniaru ar y Cyd a luniwyd gan Gymdeithas Swyddogion Coed Llundain. Nid yw canlyniadau hawliadau blaenorol am iawndal a/neu setliadau yn gosod cynsail cyfreithiol ar gyfer hawliadau posibl eraill.

7.5 - Difrod troseddol i goed y mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn berchen arnynt

Caiff unrhyw waith anghyfreithlon neu heb ei gymeradwyo i goed y mae CBSCG yn berchen arnynt ei ystyried fel difrod troseddol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwenwyno coed neu gylchrisglo sy'n anffodus yn dod yn gynyddol gyffredin. Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd CBSBG yn gweithio gyda'r heddlu a cheisio erlyn y rhai sy'n gyfrifol am waith anghyfreithlon ar goed.

7.6 - Bydd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn ymdrechu i gynnal dim colled net o goed dan eu rheolaeth o fewn unrhyw gyfnod 5 mlynedd ac mewn gwirionedd yn anelu i gynyddu brigdyfiant dan eu rheolaeth drwy gynlluniau newydd plannu coed:

Mae'n anochel y caiff coed eu colli fel canlyniad i (ymysg pethau eraill) fandaliaeth, clefyd, marwolaeth neu os yw'n rhaid eu symud i gydymffurfio gydag oblygiad statudol. Byddir yn plannu coed newydd i osgoi dirywiad yng nghyfanswm poblogaeth coed a chynyddu gorchudd brigdyfiant o fewn yr ardal drefol. Cedwir cofnodion o golli coed a phlannu coed newydd o fewn ardal CBSBG drwy system Arbortrack.



7.7

Sicrheir dim colled ar orchudd brigdyfiant coed gan gynydd blynyddol mewn plannu coed yn y ffyrdd dilynol:

- **Plannu newydd:** o rywogaethau coed priodol ar ofodau agored cyhoeddus presennol, coridorau strategol a safleoedd porth, a gyllidir drwy gyfraniad plannu a ffynonellau grant allanol eraill.
- **Lliniaru datblygiad:** bydd colli coed drwy ddatblygiad yn parhau i gael ei liniaru nid yn unig drwy amnewid tebyg am debyg ond hefyd drwy geisio iawn drwy blannu ychwanegol, lle'n ymarferol.
- **Rheolaeth uniongyrchol:** cynnal balans stoc coed drwy reoli ein stoc coed ein hunain;
- **Ymgyfraniad y gymuned:** gweithio gyda grwpiau cymunedol sefydledig i blannu ar safleoedd y cyngor.

7.8

Lle mae gofod yn galluogi plannu coeden a chyrraedd ei dwf a'i ffurf eithaf, bydd CBSBG yn anelu i blannu'r goeden fwyaf posibl serch yr angen i ddewis coed am resymau cymeriad, cynllun ac addasrwydd:

Dylid plannu coed mewn unrhyw leoliad rhesymol addas ac sydd ar gael o fewn ffiniau CBSBG. Efallai mai nad ei batrwm twf naturiol y bydd twf a ffurf coeden yn y pen draw. Defnyddir llawer o fathau rheoli megis tocio ffurfiannol a thocbrenio i sicrhau cadw coed yn yr hirdymor yn yr amgylchedd trefol a gall fod angen rheolaeth o'r fath er mwyn cadw coed presennol a blannwyd yn flaenorol mewn lleoliadau anaddas neu mewn lleoliadau lle mae defnydd o'r tir cyfagos wedi newid.

7.9

Mae CBSBG yn cydnabod fod gofod yn brin mewn ardaloedd trefol a bydd yn ceisio defnyddio safleoedd eraill ar gyfer plannu coed:

Mae CBSBG yn deall y potensial i fynwentydd, gofodau cyhoeddus agored, parciau ffurfiol a rhai ymylon y briffordd ehangach i ddod yn safleoedd plannu addas ar gyfer coetiroedd, coedfa ac o bosibl cnwd y gellir ei fedi. Drwy ddethol rhywogaethau priodol yn ofalus, bydd CBSBG yn gwneud gwell defnydd o'r tir sydd ar gael ar gyfer plannu coed.

7.10

Bydd CBSBG yn gweithio tuag at gynhyrchu'r cynlluniau rheoli coed a choetiroedd newydd neu ddiwygio rhai presennol lle'n briodol ynghyd â strategaeth gynhwysfawr ar goed ar gyfer y Fwrdeisdref:

7.11

Bydd CBSBG yn parhau â'i safon uchel o waith o waith coedyddiaeth a choedwigaeth gan gydymffurfio ag unrhyw gynlluniau rheoli presennol ac arfaethedig ynghyd â gweithio tuag at strategaeth gynhwysfawr newydd ar goed. Bydd hyn yn sicrhau dull gweithredu cytbwys a rhesymol at reoli coed o fewn ardal CBSBG a chaniatáu dyraniad cywir adnoddau.



7.12

Bydd CBSBG yn anelu i sicrhau tryloywder yn ei gamau gweithredu a holl wneud penderfyniadau yng nghyswllt coed:

Pan wneir cais, bydd CBSBG yn rhoi sylwadau i unrhyw berson sy'n gofyn am wybodaeth am gamau a gymerwyd neu benderfyniadau a wnaed yng nghyswllt rheoli coed a choetiroedd. Dylid nodi fod diogelwch y cyhoedd yn allweddol wrth wneud penderfyniadau am goed a choetiroedd o fewn ardal CBSBG.

7.13

Bydd CBSBG yn parhau â'i reoli cylchol o waith tocio:

Mae sawl math o reolaeth coed parhaus megis brigdocio a thocio i glirio llwybrau bws/priffyrdd angen gwaith mynych ar gyfnodau gosod. Caiff gwaith o'r fath ei gynnwys o fewn unrhyw gynlluniau rheoli ar gyfer ardal CBSBG i sicrhau'r dyraniad cywir o adnoddau ar yr amser cywir.

7.14

Bydd CBSBG yn anelu i sicrhau y caiff camerâu teledu cylch cyfyng eu gosod mewn lleoliadau lle na chaiff eu llinell gwelededd ei guddio neu na chaiff ei guddio gan goed:

Gellir osgoi tocio niweidiol mynych ar goed drwy ystyried y lleoliad cywir ar gyfer gosod camerâu teledu cylch cyfyng. Caiff gweithredwyr teledu cylch cyfyng eu hannog i weithio'n agos gyda'r Heddlu a CBSBG i sicrhau'r defnydd gorau o'r gofyniad cynyddol bwysig hwn. Ymgynghorir â'r Adran Seilwaith Gwyrdd ar leoliad pob camera teledu cylch cyfyng newydd arfaethedig. Ni chaiff coed eu tocio'n wedyn os na cynhaliwyd proses ymgynghori ar leoliad camerâu newydd.

7.15

Bydd CBSBG yn ceisio annog a manteisio ar gyfleoedd i greu, ehangu a chysylltu coetiroedd ac ardal coediog sefydledig:

In order to develop and maintain the green infrastructure and urban forest of the BGCBC area, BGCBC will endeavour to plant trees so as to join with existing features to develop biodiversity, ecological features such as wildlife corridors and other such landscape features.

7.16

Bydd CBSBG yn ceisio cynnwys y gymuned a grwpiau diddordeb lleol lle'n rhesymol ymarferol i wneud hynny:

Mae plannu a rheoli coed yn aml yn bwnc cynhennus mewn llawer o ardaloedd trefol a gwledig. Gyda hyn dan sylw bydd CBSBG yn anelu ymgynghori â grwpiau priodol wrth wneud gwaith sylweddol yn ardal CBSBG.

7.17

Bydd CBSBG yn ceisio rheoli ardaloedd addas o goed a choetir fel ased cyllidol yn hytrach na rhwymedigaeth:

Lle cymerir ymagwedd ochrol ar rai ardaloedd o reoli coed, gall yr hyn y gellid bod wedi ei ystyried yn rwymedigaeth llwyr gael ei droi'n weithrediad digost neu efallai ffynhonnell refeniw. Mae gan bren, boncyff a sglodion coed i gyd werth a gallant gael eu defnyddio gan amrywiaeth eang o grwpiau lleol megis cynlluniau ysgolion coedwig mewn ysgolion iau a babanod, gall rhandiroedd defnyddio sglodion coed ar gyfer tomwellt neu wyneb llwybrau. Weithiau mae gan goed sy'n rhaid eu symud werth fel pren y gellir ei ddefnyddio i adennill peth neu'r cyfan o gost eu cwmpo.



7.18

Bydd CBSBG Blaenau Gwent yn ymgymryd â rheoli coed mewn ymateb i ganllawiau'r Llywodraeth:

Weithiau caiff awdurdodau lleol y dasg o symud coed er mwyn rheoli clefyd neu dyfiant. Bydd hyn yn dilyn canllawiau a roddir yng nghyhoeddiad DEFRA Protecting Plant Health – A Plant Biosecurity Strategy for Great Britain. Gall rôl CBSBG ffurfio rhan o strategaeth ehangach rheoli achosion yn cynnwys asiantaethau llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol, perchnogion tir a'r cyhoedd. Lle gall rheolaeth o'r fath achosi niwed i anheddau a gofod cyhoeddus agored byddwn yn hysbysu'r cyhoedd am pryd a pham y caiff y gwaith ei wneud. Yn ogystal bydd CBSBG yn rhoi cyngor yng nghyswllt mesurau bioddiogelwch perthnasol er mwyn ceisio atal clefyd rhag ehangu.

7.19

Bydd CBSBG yn ymgymryd â rheoli coed gan roi ystyriaeth i'r holl fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae coed yn eu rhoi:

Mae coed ymysg yr asedau naturiol mwyaf hyblyg y gall cynllunwyr, gwneuthurwyr polisi, busnesau a chymunedau eu defnyddio i godi ansawdd yr amgylchedd adeiledig mewn ffordd effeithlon o ran cost. Er cyfraniad sylweddol coed, coetiroedd a gwrychoedd i estheteg ac amrywiaeth o fewn ardal CBSBG, rhoddir rhestr islaw o'r buddion nad ydynt efallai mor amlwg. Bydd CBSBG yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'r buddion ychwanegol hyn a rhoi ystyriaeth iddynt wrth gynnig rheolaeth ein stoc coed:

- Dal ac amsugno carbon/hidlo gronynnau
- Mae coed yn rhoi cysgod, gan oeri ardaloedd trefol dwys a gwneud amgylcheddau awyr agored yn fwy dymunol
- Mae coed yn rhyngdorri a chadw glawiad, gan ostwng y baich ar systemau draeniad a gostwng dŵr ffo a lleoli llifogydd.
- Mae coed yn asedau ariannol i awdurdodau lleol. Gellir cyfrif eu gwerth, sy'n aml yn sylweddol, yn defnyddio system a elwir yn CAVAT ('Capital Asset Value for Amenity Trees') a ddatblygwyd gan Gymdeithas Swyddogion Coed Llundain.
- Areas with a mature healthy tree population have been found to have lower levels of crime.
- Retail areas have found that they can generate 15% more revenue if the area has more trees.
- Gall coed ostwng biliau gwresogi drwy gysgodi'r eiddo rhag eithafion tywydd gwael.
- Caiff cyfraddau adferiad cleifion mewn ysbytai eu gwella pan mae'r claf yn gweld coed neu goetir.
- Mae prisiau tai mewn strydoedd sydd â choed yn aml yn uwch na strydoedd tebyg heb goed.
- Coed yn aml yw olion olaf defnydd tir blaenorol.
- Mae gan goed werth diwylliannol a chymdeithasol sylweddol.



7.20

Bydd CBSBG yn ymgymryd â rheoli coed drwy roi ystyriaeth i'r pwysau cynyddol ar ein poblogaethau coed trefol;

Mae pwysau cynyddol ar boblogaethau coed trefol ac mae'r rhesymau dros eu symud neu ddiffyg plannu coed newydd yn amrywiol:

- Mae poblogaeth heneiddiol, yn arwain at nifer cynyddol o goed sy'n marw neu sy'n beryglus
- Bygythiadau cynyddol o blâu a chlefydau, yn aml yn ymwneud â rhywogaethau penodol o goed
- Diffyg dealltwriaeth o ddatrysiadau i gynorthwyo gwell integreiddio ar goed i'r seilwaith trefol yng nghyswllt materion megis colli golau, symud dail a ffrwythau, draeniau wedi blocio, gwthiad wyneb llwybrau troed ac ymsuddiant
- Galw cynyddol am ddatblygu adeiladau newydd
- Gosod a chynnal a chadw seilwaith cyfleustodau
- Dim cadw at ymagwedd 'coeden iawn yn y lle iawn' at blannu coed, gan leihau gallu'r coed i gyrraedd eu potensial llawn
- Diffyg dealltwriaeth am y buddion y mae coed yn eu rhoi i gymdeithas.

7.21 - Gorchmynion Cadwraeth Coed ar goed y mae'r cyngor yn berchen arnynt

Yn hanesyddol bu gorchmynion cadwraeth coed ar rai coed ac mae'r rhain yn dal i fod yn eu lle. Fodd bynnag gan fod y Cyngor yn gorff cyfrifol gyda dyletswydd statudol i ddiogelu a chadwraeth coed ni ystyriwyd ei bod yn ddoeth i'r Cyngor osod gorchmynion cadwraeth ar goed sydd ar ein tir ein hunain. Dim ond pan fo risg y caiff coed eu colli y caiff gorchmynion cadwraeth coed eu rhoi ar goed ar dir preifat ac ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny. Mae canllawiau ar wahân ar y broses hon sy'n rhoi manylion pryd a sut y gweinir Gorchmynion Cadwraeth Coed.

7.22 - Coed ar dir datblygu y mae'r Cyngor yn berchen arno

Bydd coed sy'n rhan o safle datblygu neu sy'n destun ceisiadau cynllunio ac sydd ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei reoli yn destun yr un gofynion â'r rhai sydd ar safleoedd mewn perchnogaeth breifat. Dylid ymgynghori â'r Tîm Seilwaith Gwyrdd ar holl gynigion datblygu'r Cyngor sy'n debygol o effeithio ar goed. Disgwylir y caiff coed eu hystyried fel rhan o'r prosiect yn unol â'r canllawiau a roddwyd mewn Canllawiau Cynllunio Atodol: Coed a Datblygiadau.







lle gwell i fyw a gweithio



Manylion Cyswilt

Os oes angen gwybodaeth ychwanegol, cysylltwch â:



Chris Engel
Rheolwr Gwasanaeth Seilwaith Gwyrdd
Ffôn. 01495 355545
E-bost: chris.engel@blaenau-gwent.gov.uk

Katie Partington
Ecolegydd
Ffôn. 01495 355702
E-bost: katie.partington@blaenau-gwent.gov.uk

Aileen Vaughan
Swyddog Prosiect Cynorthwyol
Ffôn. 01495 355567
E-bost: aileen.vaughan@blaenau-gwent.gov.uk

Caroline Matthews
Swyddog Prosiect Amgylchedd
Ffôn. 01495 355531
E-bost: caroline.matthews@blaenau-gwent.gov.uk

Nadine Morgan
Swyddog Prosiect Bioamrywiaeth
Ffôn. 01495 356070
E-bost: nadine.morgan@blaenau-gwent.gov.uk

Andrew Fleming
Swyddog Hawliau Tramor
Ffôn. 01495 356134
E-bost: andrew.fleming@blaenau-gwent.gov.uk

Damian Assinder
Swyddog Prosiect Tirlun
Ffôn. 01495 355542
E-bost: damian.assinder@blaenau-gwent.gov.uk